OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2018 No. 191

## Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018

## RHAN 8

### BENTHYCIAD CYNHALIAETH

**Swm y benthyciad cynhaliaeth:myfyrwyr rhan-amser**

**58.**—(1) Pan fo cwrs presennol myfyriwr cymwys yn gwrs rhan-amser ("myfyriwr rhan-amser"), cyfrifir swm y benthyciad cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr fel a ganlyn—

Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i'r myfyriwr (gweler Tabl 10).

*Minws*

Swm y grant cynhaliaeth sy'n daladwy i'r myfyriwr o dan reoliad 47.

(2) Yn Nhabl 10, mae Colofn 1 yn pennu'r flwyddyn academaidd y mae uchafswm y benthyciad cynhaliaeth yng Ngholofn 2 ar gael mewn perthynas â hi.

**Tabl 10**

| **[**[F1] *Colofn 1*<br>*Blwyddyn academaidd* | *Colofn 2*<br>*Uchafswm y benthyciad cynhaliaeth sydd ar gael i fyfyriwr rhan-amser* |
|---|---|
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2018 ond cyn 1 Medi 2019 | £5,650 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2019 ond cyn 1 Medi 2020 | £5,815 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2020 ond cyn 1 Medi 2021 | £6,245 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio |
| Sy'n dechrau ar neu ar ôl 1 Medi 2021 | £6,640 wedi ei luosi â'r dwysedd astudio**]** |

**[**[F2](3) Mae'r rheoliad hwn yn ddarostyngedig i reoliad 58A.**]**

**Diwygiadau Testunol**

**F1** Rhl. 58 Amnewidiwyd Tabl 10 (gyda chais yn unol â rheoliad 1(2) o O.S.) diwygio gan Reoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2021 (O.S. 2021/73), **rhl. 30**

**F2** Rhl. 58(3) wedi ei fewnosod (1.8.2018) gan Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) (Diwygio) 2018 (O.S. 2018/813), rhlau. 1(2), **5**

**Gwybodaeth Cychwyn**

**I1** Rhl. 58 mewn grym ar 12.3.2018, gweler **rhl. 1(2)**

**Statws**
Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 04/01/2024.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**
Mae newidiadau yn dal heb eu gwneud i Rheoliadau Addysg (Cymorth i Fyfyrwyr) (Cymru) 2018. Mae unrhyw newidiadau sydd wedi cael eu gwneud yn barod gan y tîm yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt gydag anodiadau.